

Modiwl 1: Cychwyn Arni



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru



BWYD A DIOD CYMRU
FOOD AND DRINK WALES



Ewrop & Chymru: Buddsoddi yn eich dyfodol
Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop
Europe & Wales: Investing in your future
European Regional Development Fund

Cynnwys

| | |
|---|-----------|
| Cyflwyniad | 3 |
| Cyllid a'ch rhagolwg cyntaf | 3 |
| Pwrpas y modiwl | 3 |
| Beth yw pwrpas cyllid a pham mae angen cyfrifon? | 3 |
| Eich rhagolwg cyntaf | 4 |
| Gwerthiannau – y man cychwyn | 4 |
| Pris | 5 |
| Foliwm | 5 |
| Costau | 6 |
| Costau Newidiol | 7 |
| Costau sefydlog | 8 |
| Prif gostau a gwerthiannau | 9 |
| Newidiadau yn y costau | 10 |
| Costau cychwyn a chyfalaf | 10 |
| Costau – ystyriaethau eraill | 11 |
| Llif arian | 13 |
| Eich rhagolwg wedi'i gwblhau | 14 |
| Cyfrif elw a cholled | 14 |
| Llif arian | 15 |
| Ansicrwydd | 16 |
| Gofynion cyfreithiol a materion ymarferol | 17 |
| Strwythur Cyfreithiol Eich Busnes | 17 |
| Meddalwedd cyfrifyddu a chadw cofnodion | 18 |
| Dod o hyd i gyfrifydd | 18 |
| Cyfrif banc | 18 |
| Yswiriant | 18 |
| TAW | 19 |
| Trwyddedau | 19 |
| Systemau rheoli diogelwch bwyd a HACCP | 20 |
| Nodau masnach, pecynnu a chodau bar | 22 |

Cyflwyniad

Pwrpas y modiwl cyntaf hwn yw eich tywys drwy'r broses feddwl wrth sefydlu busnes newydd sbon. Mae'n mynd i'r afael â dau fater yn fras:

- A oes gennych chi syniad busnes a allai weithio? Mae'n gwneud hyn drwy fynd â chi drwy broses datblygu rhagolwg ariannol ar gyfer blynyddoedd cyntaf eich busnes. Yn y bôn, os nad oes modd i'ch syniad busnes wneud elw, ni fydd yn bosibl i'r busnes ei gynnal ei hun, heb sôn am eich cynnal chi.
- Beth yw'r camau ymarferol wrth sefydlu busnes syml? Mae'r adran hon yn eich tywys drwy'r holl fanylion y bydd angen ichi eu hystyried wrth roi'ch busnes ar waithd.

Mae'n werth dweud ar y dechrau mai bwriad y pecyn hwn yw cynnig cyngor a disgrifiadau generig am fusnes. Does byth modd iddo gynnig y math o gyngor manwl sy'n berthnasol i gwmni penodol a gewch chi gan gyfreithiwr, cyfrifydd neu weithiwr proffesiynol arall ym maes busnes. Ar ryw bwynt wrth ffurfio'ch busnes, dylech ofyn am gyngor iawn gan rywun proffesiynol er mwyn sicrhau eich bod yn cadw at y rheolau a'r rheoliadau manwl sy'n berthnasol i'ch busnes penodol chi.

Cyllid a'ch rhagolwg cyntaf

Pwrpas y modiwl

Yn y modiwl hwn, byddwn yn egluro'n fras beth yw cyllid a pham mae angen cyfrifon. Yna, bydd y rhan fwyaf o'r modiwl yn eich tywys drwy broses paratoi'ch rhagolwg cyntaf gan drafod yr amrywiaeth o faterion ariannol y bydd angen ichi feddwl amdany'n nhw cyn cychwyn busnes.

Beth yw pwrpas cyllid a pham mae angen cyfrifon?

Yn ei hanfod, adrodd stori'r busnes o safbwynt ariannol y bydd cyfrifon, h.y. beth yw ystyr yr holl drafodion ariannol mewn gwirionedd. Mae'n hawdd casglu llond blwch o anfonebau – ond pwrpas y cyfrifon yw grwpio'r anfonebau hyn yn gategoriau er mwyn ichi wybod beth sy'n digwydd.

Mae deall y stori ariannol hon yn elfen hanfodol o gadw busnes – bydd angen ichi feddwl am gyllid wrth ichi ddechrau cynllunio'ch busnes oherwydd:

- Mae cadw cyfrifon yn ofyniad cyfreithiol. Os ydych yn gwmni cyfyngedig llawn, rhaid ichi ffeilio cyfrifon blynyddol yn Nhŷ'r Cwmnïau. Hyd yn oed os ydych yn unig fasnachwr (yn cadw busnes bach ar yr un pryd â gwneud swydd 'arferol') bydd yn dal angen ichi gadw cyfrifon manwl i gyfrifo faint o dreth y bydd angen ichi ei dalu.
- Hyd yn oed cyn ichi ddechrau'ch busnes, bydd angen ichi baratoi rhagolwg o'ch sefyllfa ariannol er mwyn gweld a yw'n bosibl iddo lwyddo ac a fydd yn gwneud digon o arian i dalu cyflog ichi, neu hyd yn oed i'ch gwneud yn gyfoethog!
- Bydd y weithred syml hon o baratoi rhagolwg yn help ichi feddwl drwy bob agwedd ar eich busnes yn fanwl fel na fyddwch yn anghofio rhywbeth hollbwysig. Bydd hefyd yn help ichi ddeall deinameg eich busnes.
- Ar ôl ichi sefydlu'ch busnes a'i roi ar waith, bydd angen ichi gadw cyfrifon manwl er mwyn olrhain ei gynnydd, cymharu'r canlyniadau â'ch rhagolwg a chymryd camau cywiro os bydd angen.

Eich rhagolwg cyntaf

Bwriad y modiwl hwn yw ystyried y camau cyntaf i gwmni syml. "Unig fasnachwr" fydd dan sylw gennym am nawr, sy'n golygu'n syml unrhyw fusnes sy'n cael ei gadw gan unigolyn, rhywun sydd o bosibl yn sefydlu busnes am y tro cyntaf neu'n gwneud hynny ochr yn ochr â gwneud swydd. Byddwn yn rhoi sylw i strwythurau busnes mwy cymhleth, er enghraifft Cwmni Cyfyngedig ym modiwl 2.

Y nod yng ngweddill y model hwn fydd disgrifio pob elfen o'ch rhagolwg cyntaf. Byddwn yn llunio rhagolwg ar gyfer tair blynedd cyntaf eich busnes. Mae hyn yn ddigon hir ichi feddwl y tu hwnt i'r cam cychwyn hyd at y pwynt lle bydd eich busnes wedi'i sefydlu. Byddwn yn ystyried y tymor hwy mewn modiwlau diweddarach.

Bydd y rhagolwg yn cynhyrchu cyfrif elw a cholled (eich gwerthiannau llai'ch costau) a hefyd y llif arian a fydd yn eich galluogi i weld faint o arian y bydd ei angen arnoch i roi'ch busnes ar waith.

Os oes gennych brofiad o gyfrifyddu o gwbl, efallai na fyddwch yn deall pam nad ydym yn cynnwys mantolen. Petaech yn paratoi cyfrifon llawn i'w cyhoeddi (a elwir yn gyfrifon statudol) byddai gofyn ichi wneud hynny, ond er mwyn asesu pa mor hyfyw yw eich busnes, y ddau rif pwysicaf yn y fantolen yw'r elw a'r arian parod, felly dyma'r ffigurau y byddwn yn eu cynhyrchu. Mater academaidd i raddau yw gweddill y fantolen os byddwch yn gwneud colled neu os bydd eich llif arian parod yn sychuh.

Wrth ddisgrifio pob un o'r meysydd ariannol pwysig y bydd angen ichi eu hystyried, mae'r modiwl hwn yn eich annog i ddeall sbardunau ariannol eich busnes a meddwl drwyddyn nhw. Nid yw'n ceisio rhoi'r math o gyngor proffesiynol manwl, penodol ar gyfer eich sefyllfa benodol chi y byddech yn ei gael gan gyfreithiwr neu gyfrifydd; nid oes modd inni ystyried eich amgylchiadau manwl chi a'ch busnes. Mae'r ddeddfwriaeth sy'n berthnasol i drethiant, cyflogaeth, iechyd a diogelwch, safonau bwyd ac ati'n gymhleth ac mae peryglon sylweddol i rywun fethu â chydymffurfio. Felly, dylech sicrhau eich bod yn ymchwilio'n drwyadl i'r ddeddfwriaeth a'r trefniadau rheoleiddio sy'n berthnasol i amgylchedd eich busnes a cheisio cyngor proffesiynol priodol lle bydd hynny'n berthnasol.

Gwerthiannau – y man cychwyn

Mae'n debygol mai cnewyllyn o syniad am gynnyrch neu wasanaeth sydd wedi sbarduno'ch busnes. Wedi'r cyfan – dyna hanfod busnes – gwerthu pethau, ac felly, dyma'r agwedd gyntaf i'w hystyried. Yn ogystal â hyn, bydd pob penderfyniad busnes arall yn deillio o'ch gwerthiannau – faint o ddeunydd crai y bydd angen ichi ei brynu, ffatri o ba faint y bydd ei hangen arnoch chi, ac ati?

Ansicrwydd

Mae'n werth dweud mai gwerthiannau yw'r elfen fwyaf anodd ei rhagweld yn gywir – os yw eich busnes yn newydd, yna, does gennych chi ddim profiad o'r cynnyrch hwn yn y farchnad hon – mae'n bosibl bod hufen iâ blas malwod yn dod â dŵr i'ch dannedd chi – ond efallai na fydd yn apelio at fawr o neb arall!

Felly, dylech wneud cymaint o waith ymchwil ag y gallwch chi. Gofynnwch i ffrindiau a chydweithwyr am eu barn am eich syniad. A fydden nhw'n ei brynu a faint fydden nhw'n fodlon ei dalu amdano? Pwyswch arnyn nhw i fod yn gwbl onest. Edrychwch ar y cwmnïau a allai fod yn cystadlu â chi, beth yw nodweddion eu cynnyrch, faint maen nhw'n ei godi? Rhaid i bob cwmni cyfyngedig gyhoeddi cyfrifon – efallai y gallwch gael rhyw syniad am faint o gynnyrch y mae'ch cystadleuwyr yn ei werthu drwy edrych ar eu cyfrifon. Os ydyn nhw'n gwmni yn y Deyrnas Unedig, am ffi o £1.00, gallwch lawrlwytho'u cyfrifon oddi ar wefan Tŷ'r Cwmnïau [www.gov.uk/get-information-about-a-company].

Pris

Mae angen ichi ragweld dwy elfen wrth edrych ar werthiannau: foliwm (y nifer y byddwch yn ei gwerthu) a'r pris fesul eitem. Mae cysylltiad rhwng y ddau beth hyn – os byddwch yn codi'ch prisiau, mae'n debyg y gwerthwch chi lai. Mae'n bwysig tafoli'r ddau hyn er mwyn sicrhau'r refeniw (y term cyfrifyddu am yr arian a wnewch chi drwy werthu) a'r elw mwyaf. Wrth ichi ystyried y pris y byddwch yn ei godi, mae'n ddefnyddiol meddwl am 4 peth:

Costau – mae'n amlwg bod yn rhaid i'ch pris fod yn uwch na'ch costau neu wnewch chi ddim elw; byddwn yn edrych yn fanylach ar gostau'n ddiweddarach yn y modiwl hwn, ond, wrth ichi gymharu'r pris â'r costau, dylech ystyried ai costau newidiol ynteu cyfanswm y costau y mae angen ichi eu tafoli.

Cwsmeriaid – yn syml, faint y bydd eich cwsmeriaid yn barod i'w dalu neu'n gallu ei dalu?

Cystadleuwyr – faint mae'ch darpar gystadleuwyr yn ei godi, sut y bydd eich cynnyrch yn cymharu â'u cynnyrch nhw? Dylech hefyd geisio mesur beth fydd ymateb eich cystadleuwyr i'ch lansiad. Mae'n bosibl y byddan nhw'n gostwng eu pris er mwyn ceisio'ch gwthio o'r farchnad.

Strategaeth Gorfforaethol – beth yw eich ymagwedd gyffredinol – a ydych yn ceisio bod yn wahanol a chynnig nwyddau moethus, lle y byddai eich cwsmeriaid yn disgwyl talu prisiau uchel, ynteu a ydych chi'n arweinydd costau, gan geisio gwneud elw drwy werthu nifer fawr o nwyddau am brisiau isel.

Yn olaf, dylech feddwl am sut y bydd eich pris yn newid dros gyfnod – wrth ichi gyflwyno cynnyrch newydd, mae'n ddefnyddiol edrych ar ddwy ffordd o fynd ati ar y dechrau:

Treiddio i'r Farchnad – os ydych yn lansio cynnyrch mewn marchnad lawn, aeddfed, efallai y bydd yn rhaid ichi osod eich pris yn isel ar y dechrau er mwyn annog cwsmeriaid i roi cynnig ar eich cynnyrch newydd, anghyfarwydd. Dychmygwch bowdwr golchi newydd sy'n cael ei werthu am bris sydd wedi'i ostwng 50%. Y nod yn y sefyllfa hon fydd cael cwsmeriaid i ddechrau arfer prynu eich cynnyrch. Mae perygl er hynny i gwsmeriaid arfer â phrynu'ch cynnyrch am y pris isel hwn ac y byddwch yn ei chael hi'n anodd codi'r pris yn ddiweddarach.

Sgimio'r Farchnad – os oes rhywbeth sy'n gosod eich cynnyrch ar wahân i'r gystadleuaeth, gallwch ei lansio ar bris cymharol uchel. Bydd hyn yn cyfyngu ar y foliwm y byddwch yn ei werthu. Gall hyn fod yn ddefnyddiol os yw'n eich galluogi i ddelio â phroblemau cynhyrchu cychwynnol yn ystod y camau cyntaf. Mae'r dull hwn yn arbennig o ddefnyddiol lle bydd gan gynnyrch ddelwedd gref ond bod ei gylch oes o bosibl yn fyr a phan fydd angen ichi sicrhau'r elw mwyaf posibl – dychmygwch yr iPhone Apple diweddaraf.

Chwyddiant

Wrth ichi baratoi'ch rhagolwg ar gyfer y tair blynedd cyntaf, dylech anwybyddu chwyddiant. Yn yr hinsawdd economaidd bresennol, mae chwyddiant yn isel ac felly, dim ond effaith fach a gaiff dros dair blynedd. Yn ail, bydd chwyddiant yn effeithio ar refeniw'ch gwerthiannau ac ar eich costau, felly bach fydd yr effaith net ar elw.

Foliwm

Ar ôl ichi benderfynu ar y pris, dylech ystyried faint o bob cynnyrch y byddwch yn ei werthu (foliwm). Mae llawer o ffactorau'n dylanwadu ar foliwm, gan gynnwys:

Capasiti – yn syml, faint y gallwch chi ei wneud? Ar y dechrau, efallai y byddwch yn wynebu problemau cychwynnol ac felly, dylech dybio y bydd eich foliwm yn cynyddu'n raddol wrth ichi fagu arbenigedd.

Pris – mae'n amlwg y bydd cynnyrch uchel ei bris yn fwy unigryw ac y byddwch yn gwerthu llai ohono nag y byddech yn gwerthu cynnyrch rhatach.

Y farchnad – pa mor fawr yw eich darpar farchnad, faint ohoni y mae'r sawl sy'n cystadlu'n uniongyrchol â chi'n ei chyflenwi eisoes, pa ganran o'r farchnad honno rydych chi'n ceisio'i chipio?

Cynhyrchion ategol/eilaidd – os ydych yn bwriadu cael nifer o wahanol gynhyrchion bydd angen ichi feddwl am y berthynas rhyngddyn nhw. Bydd rhai'n ategu'i gilydd, felly bydd prynu'r naill yn sbarduno'r llall (er enghraifft pysgod a sglodion), ond bydd rhai eraill yn cystadlu am yr un cwsmer (er enghraifft jar o jam sy'n cael ei werthu mewn dau wahanol faint). Bydd angen ichi sicrhau bod eich rhagamcanion ar gyfer foliwm yn gyson.

Twf

Dros y tair blynedd cyntaf byddwch wrth gwrs yn gobeithio y bydd foliwm eich gwerthiannau'n tyfu ac fe ddylech gynnwys hyn yn eich ystyriaethau. Serch hynny, dylech ystyried yr holl faterion uchod sy'n ymwneud â foliwm – er enghraifft, allwch chi ddim tyfu i'r fath raddau nes ichi gyflenwi mwy o foliwm yn y pen draw na chyfanswm y farchnad sy'n bodoli! Dylech hefyd ystyried effaith compowndio – gall tyfu ychydig bach bob mis arwain at lefel uchel iawn o dwf dros dair blynedd. Er enghraifft, os byddwch yn gwerthu 5% yn fwy bob mis nag a wnaethoch yn y mis blaenorol – erbyn diwedd y tair blynedd byddwch yn gwerthu CHWE gwaith yn fwy nag a wnaethoch yn eich mis cyntaf.

Templed

Bydd y daenlen sydd ynghlwm yn help ichi lunio'ch rhagolwg cyntaf. Dylech ei hagor hi a mynd i'r tab Gwerthiannau yn y gornel chwith waelod. Fe welwch fod lle yma ichi gynnwys 5 gwahanol gynnyrch a foliwm a phris ar gyfer pob un. Dylech deipio'ch tybiaethau yn y celloedd melyn gwan. Wrth ichi deipio'r foliwm a'r pris, fe welwch fod cyfanswm refeniw'r gwerthiannau'n cael ei gyfrifo'n awtomatig ar gyfer pob mis, a'r cyfanswm ar gyfer pob blwyddyn a hefyd ar gyfer rhagolwg llawn y tair blynedd.

Mae'r tabl isod yn dangos dalen sy'n cynnwys rhywfaint o ddata enghreifftiol.

| Enw'r cwmni: Masnachu ABC | | | | | | | | | | | | | | | |
|---------------------------|--------|----------|------------|--------|--------|--------|--------|--------|--------|--------|--------|--------|--------|--------|----------|
| Gwerthiannau | | | | | | | | | | | | | | | |
| | Credyd | | Blwyddyn 1 | | | | | | | | | | | | Cyfanswm |
| | Mis | | Mis 1 | Mis 2 | Mis 3 | Mis 5 | Mis 6 | Mis 7 | Mis 8 | Mis 9 | Mis 9 | Mis 10 | Mis 11 | Mis 12 | |
| Cynnyrch 1 | 0 | Foliwm | 12 | 13 | 15 | 17 | 17 | 16 | 18 | 19 | 20 | 21 | 23 | 35 | £226 |
| | | Pris | £45.00 | £45.00 | £45.00 | £45.00 | £45.00 | £45.00 | £45.00 | £45.00 | £45.00 | £45.00 | £45.00 | £45.00 | |
| | | Cyfanswm | £540 | £585 | £675 | £765 | £720 | £810 | £855 | £900 | £945 | £1,035 | £1,575 | | £10,170 |
| Cynnyrch 2 | 0 | Foliwm | 50 | 60 | 80 | 100 | 110 | 120 | 130 | 130 | 120 | 140 | 150 | 120 | £1,310 |
| | | Pris | £9.99 | £9.99 | £9.99 | £9.99 | £9.99 | £11.99 | £11.99 | £11.99 | £11.99 | £11.99 | £11.99 | £11.99 | |
| | | Cyfanswm | £500 | £599 | £799 | £999 | £1,099 | £1,199 | £1,559 | £1,559 | £1,439 | £1,679 | £1,799 | £1,439 | £14,667 |
| Cynnyrch 3 | 0 | Foliwm | | | | | | | | | | | | | |
| | | Pris | | | | | | | | | | | | | |
| | | Cyfanswm | £0 | £0 | £0 | £0 | £0 | £0 | £0 | £0 | £0 | £0 | £0 | £0 | £0 |

Costau

Ar ôl ichi benderfynu ynghylch eich gwerthiannau, gallwch ddechrau meddwl am eich costau.

Mae'r rhain yn haws o lawer i'w rhagweld na'ch gwerthiannau oherwydd mae bob tro'n bosibl cael dyfynbris am gost eitem.

Mae costau'n ymrannu'n ddau categori'n gyffredinol – sef costau sefydlog a chostau newidiol.

Costau Newidiol

Fel mae'r enw'n ei awgrymu, costau sy'n newid yn uniongyrchol yn sgil y foliwm yw'r rhain. Meddylwch am eich deunyddiau crai. Os na fyddwch chi'n gwneud dim o'ch cynhyrchion eich hun, ni fydd angen deunyddiau arnoch. Ar gyfer pob cynnyrch newydd y byddwch yn ei wneud, bydd angen un swm arall o ddeunydd crai.

Mae'n werth datblygu'r hyn sy'n cael ei alw'n gerdyn costau – rhestr o bob eitem y bydd ei hangen arnoch i wneud un uned o'ch cynnyrch. Y ffordd hawsaf o wneud hyn yw defnyddio'ch profiad eich hun – rhwch gynnig ar wneud y cynnyrch yn eich cegin gan gadw nodiadau manwl o'r cynhwysion Hyd yn oed yn ystod y cam hwn, meddylwch am arbedion effeithlonrwydd – gall arbed ceiniog neu ddwy ar bob eitem wneud gwahaniaeth mawr i'ch elw.

Ar ôl ichi nodi'ch deunyddiau crai, cofiwch gynnwys costau newidiol eraill, er enghraifft:

- trydan – efallai y bydd yn rhaid ichi amcangyfrif, ond mae'n well cynnwys rhywbeth yn hytrach na dim – gallwch bob tro fireinio'ch amcangyfrifon wrth ichi fagu mwy o brofiad;
- costau postio/cludo neu danwydd i'ch cerbyd.

Templed

Mae dau dab ar gyfer costau newidiol ar y daenlen. Y **Cerdyn Costau** yw'r cyntaf ac mae hwn yn eich galluogi i adeiladu'r gost newidiol ar gyfer pob un o'ch cynhyrchion. Fel o'r blaen, dylech ddefnyddio'r celloedd melyn i adeiladu'r costau. Gallwch ddefnyddio'r llinellau 'eraill' os na fydd digon o le yn yr adrannau uchaf. Mae'r tabl isod yn dangos y cerdyn costau wrthi'n cael ei adeiladu:

| Enw'r cwmni: Masnachu ABC | | | | | |
|-------------------------------------|---|------------------|---------------------|------------|---------------------|
| Costau Newidiol | | | | | |
| Cerdyn costau ar gyfer pob cynnyrch | | Cynnyrch 1 | | Cynnyrch 2 | |
| | | Disgrifiad | Cost fesul uned (£) | Disgrifiad | Cost fesul uned (£) |
| Deunyddiau crai | 1 | Cig | £1.00 | | £0.00 |
| | 2 | Tatws | £0.34 | | £10.00 |
| | 3 | Moron | £0.80 | | £0.00 |
| | 4 | | £0.00 | | £0.00 |
| | 5 | | £0.00 | | £0.00 |
| Costau cynhyrchu | | | | | |
| Llafur | 1 | Mr Smith 1 awr | £12.00 | | £0.00 |
| Llafur | 2 | Mrs Jones 30 mun | £8.00 | | £0.00 |
| Llafur | 3 | | £0.00 | | £0.00 |
| Trydan | | 1 uned | £0.20 | | £0.00 |
| Mwy | | | £0.00 | | £0.00 |
| Amser peiriant | | 20 mun | £0.60 | | £0.00 |
| Eraill | | | | | |
| | 1 | | £0.00 | | £0.00 |
| | 2 | | £0.00 | | £0.00 |
| | 3 | | £0.00 | | £0.00 |
| | 4 | | £0.00 | | £0.00 |
| | 5 | | £0.00 | | £0.00 |
| | | | £22.94 | | £10.00 |

Yr ail dab sy'n berthnasol i gostau newidiol yw Costau Newidiol. Mae hwn yn gweithio'n awtomatig gan mwyaf. Mae'n tynnu'r data am foliwm o'r tab Gwerthiannau ac yn lluosio â'r cerdyn costau ar gyfer pob eitem. Mae'r celloedd melyn yn eich galluogi i leihau neu gynyddu'r gost fesul uned dros y tair blynedd (gweler yr adran "Newidiadau yn y costau" wedyn). Y ganran ddiodyfyn yw 100% h.y. mae'r cerdyn costau'n cael ei roi ar waith yn llawn drwyddi draw. Mae'r enghraifft isod yn dangos y costau'n gostwng ychydig yn ystod y misoedd cyntaf wrth sicrhau disgowntiau foliwm.

| Enw'r cwmni: Masnachu ABC | | | | | | | |
|---------------------------|--------|-----------------|-------------|-------------|-------------|-------------|---------------|
| Costau Newidiol | | | | | | | |
| | Credyd | | Blwyddyn 1 | | | | |
| | Mis | | Mis 1 | Mis 2 | Mis 3 | Mis 4 | Mis 5 |
| Cynnyrch 1 | 0 | Foliwm | 12 | 13 | 15 | 17 | 17 |
| | | Ffactor | 100% | 100% | 95% | 95% | 95% |
| Cerdyn costau | £22.94 | | £22.94 | £22.94 | £21.79 | £21.79 | £21.79 |
| | | Cyfanswm | £275 | £298 | £327 | £370 | £370 |
| Cynnyrch 2 | 0 | Foliwm | 50 | 60 | 80 | 100 | 110 |
| | | Ffactor | 100% | 100% | 95% | 95% | 95% |
| Cerdyn costau | £10.00 | | £10.00 | £10.00 | £9.50 | £9.50 | £9.50 |
| | | Cyfanswm | £500 | £600 | £760 | £950 | £1,045 |

Costau sefydlog

Nid yw'n syndod mai costau sefydlog yw'r rhain, h.y. nid yw'r rhain yn newid wrth ichi wneud mwy neu lai o'ch cynnyrch. Un enghraifft fyddai rhent swyddfa neu ffatri lle y bydd gofyn ichi dalu'r un faint, ni waeth a fyddwch yn gwneud un eitem ynteu mil o eitemau.

Wrth adeiladu eich rhagolwg, un anhawster sylweddol yw cofio cynnwys pob un gost sydd ynghlwm wrth gynnal y busnes ac amcangyfrif y symiau. Mae angen ichi feddwl yn eang. Os ydych yn gweithio, edrychwch o'ch cwmpas am bopeth a fydd yn costio arian i'r cwmni. Trafodwch â chynifer o bobl eraill ag y bo modd, yn enwedig y rheini sy'n cadw busnes bach. Yn fan cychwyn, cofiwch gynnwys: rhent, ardrethi, trydan, hysbysebu, gwefan, nwyddau swyddfa, gwres, postio, petrol i'ch car (a threuliau eraill, teiars, MOT, yswiriant), galwadau ffôn, band eang, profi'r cynnyrch a rheoliadau ac ati.

Costau lled-newidiol a chostau fesul cam

Mae rhai costau'n gallu bod yn lled-newidiol – neu'n gostau fesul cam – er enghraifft, codir tâl sefydlog penodedig ac elfen fesul uned am drydan. Bydd angen ichi rannu'r rhain yn rhannau newidiol ac yn rhannau sefydlog.

Cyflogau

Mae a wnelo'n rhagolwg cyntaf â busnes syml sy'n annhebygol o gyflogi neb. Byddwn yn ystyried cyflogi staff yn fwy manwl yn yr ail fodiwl. Serch hynny, os ydych yn rhagweld cyflogi staff, cost sefydlog fyddai honno. Dylech gofio cofnodi swm uwch ar gyfer eu cyflog i gynnwys cyfraniad Yswiriant Gwladol y cyflogwr, tâl gwyliau, gwisg gwaith, costau hyfforddi ac ati. Byddai'n rhesymol ychwanegu tua 30% ar ben eu cyflog ar gyfer yr eitemau hyn.

Templed

Mae'r tab Cost Sefydlog ar y daenlen yn eich galluogi i ragweld eich costau sefydlog. Mae wedi'i rannu'n ddwy adran. Mae'r rhan uchaf ar gyfer costau na fyddwch yn eu talu'n fisol, er enghraifft, os byddwch yn talu'ch rhent bob chwarter ymlaen llaw, yna, dylech roi'r taliadau yn yr adran felyn; wedyn byddwch yn gweld bod y llinell oddi tanodd yn cyfartalu'r costau hynny ar draws y flwyddyn, fel y gwelwch yn yr enghraifft isod.

| Enw'r cwmni: Masnachu ABC | | | | | | |
|---------------------------|-----|------------|-------|-------|-------|-------|
| Costau sefydlog | | | | | | |
| | Mis | Blwyddyn 1 | | | | |
| | | Mis 1 | Mis 2 | Mis 3 | Mis 4 | Mis 5 |
| Costau heb fod yn fisol | | | | | | |
| Rhent | | £300 | | | £300 | |
| | | £100 | £100 | £100 | £100 | £100 |
| Ardrethi | | £50 | | £50 | | £50 |
| | | £25 | £25 | £25 | £25 | £25 |
| Trydan | | | £30 | | | |
| | | £10 | £10 | £10 | £10 | £10 |

Wedyn, mae adran yn is lawr i gofnodi costau misol rheolaidd. Unwaith eto, teipiwch y symiau yn y celloedd melyn.

| Costau misol | | | | |
|--------------|-----|-----|-----|-----|
| Rhent | £10 | £10 | £10 | £10 |
| Ardrethi | £5 | £5 | £5 | £5 |
| Trydan | £10 | £10 | £10 | £10 |
| Nwy | | | | |
| Arall 1 | £7 | £7 | £7 | £7 |
| Arall 2 | £2 | £2 | £2 | £2 |

Mae 10 llinell 'arall' yn nwy ran y tab hwn ichi gynnwys eitemau sy'n benodol i'ch busnes.

Prif gostau a gwerthiannau

Efallai y cofiwch inni nodi'n gynharach yn y modiwl hwn fod angen i'ch pris gwerthu fod yn uwch na'ch costau er mwyn ichi wneud elw. Mae'n werth ystyried yn awr pa gostau rydym yn sôn amdany'n nhw. Yn ddelfrydol, dylai cyfanswm eich refeniw fod yn fwy na'ch costau i gyd. Serch hynny, yn ystod yr ychydig fisoedd cyntaf, efallai mai ychydig iawn o eitemau y byddwch yn eu gwerthu, ond bod eich bil rhent yn dal yn fawr. Felly, dylech fan leiaf sicrhau bod eich pris gwerthu'n uwch na'ch cost newidiol fesul eitem. Mae'r gost newidiol fesul eitem hon hefyd yn cael ei galw'n gost ffiniol, h.y. cost ychwanegol gwneud un eitem arall.

Bydd rhagolygon yn aml yn cynnwys llinell a elwir yn gyfraniad sef cyfanswm refeniw'r gwerthiannau llai cyfanswm y gost newidiol – cyn belled â bod y llinell gyfraniad hon yn gadarnhaol, yna, wrth i'r foliwm gynyddu, bydd y cyfraniad at y costau sefydlog isod yn cynyddu hefyd.

Yn draddodiadol, byddai busnesau mawr yn cynnwys cyfran o'u costau sefydlog ar y cerdyn costau ar gyfer pob cynnyrch. Wrth wneud hynny, byddent yn ceisio sicrhau bod gwerthu'r cynnyrch yn sicrhau bod y referiw'n ddigon i dalu costau newidiol a chostau sefydlog y busnes. Gelwir y dull hwn yn gostio amsgunol. Dim ond ar gyfer busnesau sefydlog sydd wedi cael eu traed danynt y mae hyn yn briodol mewn gwirionedd, lle na fydd foliwm y cynnyrch yn newid rhyw lawer bob blwyddyn.

Newidiadau yn y costau

Dylech hefyd ystyried beth fydd yn digwydd i'ch costau dros dair blynedd eich rhagolwg. Yn y dyddiau cynnar, os byddwch yn cynhyrchu symiau cymharol fach, byddwch yn talu pris mawr am bob eitem o ddeunydd crai. Wrth i'ch busnes a'r foliwm dyfu, byddwch yn gallu trafod prisiau gwell gyda'ch cyflenwyr. Gelwir y gostyngiadau hyn yn y pris-fesul-uned yn arbedion maint, ac mae'n bosibl eu rhoi ar waith ar gyfer pob cost newidiol – e.e. bydd fan gludo fawr sy'n llawn dop yn costio llai fesul uned i'w rhedeg nag un fach.

Profiad – yn yr un modd, wrth ichi gael rhagor o ymarfer yn cynhyrchu'ch cynnyrch, dylech hefyd allu gwneud arbedion maint yn fewnol – yn y bôn byddwch yn well am gynhyrchu'ch cynnyrch.

Er bod y ffactorau hyn yn rhai real iawn, dylech fod yn ochelgar wrth gynnwys eu heffaith yn eich rhagolwg. Yn gyntaf, mae'n anodd rhagweld yr effaith yn fanwl gywir, ac yn ail, maen nhw'n dibynnu ar gynyddu foliwm y gwerthiannau – h.y. mae cynyddu'r foliwm fel hyn yn arwain at fudd dwbl i'ch gallu i wneud elw. Yn y bôn, mae angen ichi fod yn ofalus wrth gyfiawnhau eich syniad busnes drwy ragweld twf mawr na fydd o reidrwydd yn cael ei wireddu.

Costau cychwyn a chyfalaf

Y categori costau terfynol yw costau cychwyn untro. Mae'r rhain yn cynnwys yr holl eitemau y bydd angen ichi fuddsoddi ynddyn nhw i roi'ch busnes ar waith – er enghraifft, i fusnes newydd sy'n pobi cacennau, prynu popty. Gall hyn gynnwys peiriannau y bydd eu hangen ar gyfer cynhyrchu, premiwm les ar eiddo newydd, offer cyfrifiadurol, cost sefydlu gwefan, cost fan gludo, cyhoeddusrwydd, ffioedd cyngor cyfreithiol/cyngor am drethiant/cyngor cyfrifwyr, ffioedd cofrestru ac ati.

Oherwydd y bydd rhai o'r eitemau hyn yn cael eu defnyddio dros nifer o flynyddoedd, byddai'n annheg eu "tadogi" ar elw eich mis cyntaf. Byddai hynny'n golygu eich bod yn dangos colled enfawr yn eich mis cyntaf a'r sefyllfa ar gyfer pob mis wedyn yn edrych yn well nag yr oedd mewn gwirionedd. Felly, byddwn yn taenu'r gost dros y cyfnod pan fyddwn yn defnyddio'r eitemau. Er enghraifft os ydy'r pobydd wedi talu £240 am bopty a'i fod yn meddwl y byddai'n para 2 flynedd, yna, mae angen cydnabod cost o £10 y mis – bron fel petai ei fusnes pobi cacennau'n rhentu'r popty. Gelwir taenu'r costau fel hyn yn ddibrisiad ac efallai eich bod wedi clywed am hyn.

Unwaith eto, bydd angen ichi feddwl ar raddfa mor eang â phosibl er mwyn sicrhau eich bod wedi cofnodi'r holl gostau y bydd eu hangen arnoch i sefydlu'ch busnes. Bob tro y byddwch yn edrych ar fusnes, meddyliwch beth mae cyrraedd y fan honno wedi'i olygu.

Templed

Gall trin y costau hyn mewn cyfrifon fod yn bwnc cymhleth sydd y tu hwnt i faes y modiwl hwn. Serch hynny, mae modd gwahaniaethu'n syml rhwng costau untro, sef y rhai y dylech eu cydnabod wrth ichi wario'r arian ac eitemau sy'n gyfalaf o ran eu natur y gallwch eu taenu neu eu dibrisio dros gyfnod. Ffordd hawdd o feddwl am hyn yw ystyried a oes gwerth ail law i'r eitem yn yr 2il neu'r 3ydd mis – byddai gwerth o'r fath ar bopty'r pobydd cacennau, ond, ni fyddai'r un peth yn wir am swm y byddwch yn ei wario ar gyngor cyfreithiol. Felly costau cyfalaf yw'r popty ac mae'n bosib eu dibrisio.

Mae'r tab **Cychwyn** yn y daenlen yn eich galluogi i gynnwys y costau hyn yn eich rhagolwg. Mae rhestr hir o eitemau posibl a lle ichi ddisgrifio'r symiau a chasglu'r gost. Fe welwch yn yr enghraifft isod golofn "oes (bl)". Os bydd yr eitem yn cael ei defnyddio dros nifer o flynyddoedd ac y bydd iddi werth ail law, dylech deipio'r oes yn y golofn hon hefyd. Fe welwch wedyn fod y gost yn cael ei thaenu dros y misoedd dilynol. Os gadewch yr oes yn sero, bydd y gost yn cael ei chofnodi yn y mis cyntaf.

| Rne'r cwmni: Masnachu ABC | | | | | | |
|---------------------------|--------------|--------|----------|------------|-------|-------|
| Costau cychwyn | | | | | | |
| Costau untro | Disgrifiad | Swm | Oes (bl) | Blwyddyn 1 | | |
| | | | | Mis 1 | Mis 2 | Mis 3 |
| Peiriannau 1 | Popty | £300 | 3 | £9 | £9 | £9 |
| Peiriannau 2 | Peiriant CAD | £1,000 | 0 | £1,000 | £0 | £0 |
| Peiriannau 3 | | | 0 | £0 | £0 | £0 |
| Peiriannau 4 | | | 0 | £0 | £0 | £0 |
| Peiriannau 5 | | | 0 | £0 | £0 | £0 |
| Eiddo 1 | Premiwm les | | 5 | £83 | £83 | £83 |
| Eiddo 2 | | | 0 | £0 | £0 | £0 |

Costau – ystyriaethau eraill

Eich costau'ch hun

Ar ddechrau'ch busnes, mae'n demtasiwn "ychwanegu" eich syniad busnes at eich amgylchiadau personol cyfredol, h.y. tybio y byddwch yn gallu defnyddio'r adnoddau sydd gennych eisoes (eich car neu'ch ffôn symudol er enghraifft) i redeg eich busnes. Mae hyn yn beth cwbl resymol i'w wneud yn yr ychydig fisoedd cyntaf, ac mae lluo o enghreifftiau o fusnesau llwyddiannus sydd wedi'u sefydlu wrth fwrdd y gegin.

Serch hynny, dylech geisio cyflwyno'r costau hyn i'ch rhagolwg wrth ichi gamu drwy'r tair blynedd, neu fel arall, fydd gennych chi fyth ddarlun clir i wybod a yw eich busnes yn gwneud elw go iawn neu beidio. At hynny, wrth nodi'r costau hyn, gallwch eu gosod yn erbyn eich elw ac felly ostwng bil treth y busnes.

Beth na ddylech ei gynnwys

Yn ystod y cam cynnar hwn, y cyfan rydych yn ei wneud yw ceisio cael rhyw syniad a yw eich busnes yn hyfyw neu beidio. Felly, mae nifer o eitemau y gallwch eu hanwybyddu yn eich rhagolwg. Mae'r rhain yn eitemau real a phwysig iawn, a'r rheolau a'r rheoliadau yn eu cylch yn aml yn gymhleth, ond am nawr, y cyfan sydd ei angen yw ichi fod yn ymwybodol ohonyn nhw a'r rhesymau dros allu eu hanwybyddu.

Trethiant

Mae trethiant (neu drethi) yn bwnc cymhleth. Mae llawer o wahanol reolau sy'n benodol iawn i'ch busnes ac mae'r rhain yn dibynnu ar:

- strwythur eich busnes – ai cwmni cyfyngedig ynteu unig fasnachwr ydych chi. Yn ei dro, bydd hyn yn effeithio ar y math o dreth y byddwch yn ei dalu, treth gorfforaethol ynteu treth incwm;
- maes eich busnes – mae'r ffordd mae ffarmio'n cael ei drin ar gyfer treth er enghraifft yn benodol iawn;
- sut y byddwch yn talu ichi'ch hun am yr amser y byddwch yn ei dreulio ar eich busnes; a
- pha fath o gostau cychwyn rydych wedi'u hysgwyddo?

Serch hynny, yn ystod y cyfnod cynnar, os nad ydych yn gwneud llawer o elw, ni ddylech fod yn talu llawer o dreth (os byddwch yn talu treth o gwbl). Felly, mae'n rhesymol ichi anwybyddu treth yn eich rhagolwg wrth ichi asesu pa mor hyfyw yw'ch busnes. Os bydd eich rhagolwg yn dangos eich bod yn gwneud elw – mae hyn yn newyddion da ac felly, dylech fod yn hapus bod hyn yn golygu y byddwch yn talu treth. Os na fyddwch yn gwneud elw, bydd angen ichi boeni mwy am hynny na phoeni am y dreth!

Y rheolau sy'n berthnasol i'r ffordd y caiff eich busnes ei drin o ran treth yw'r maes allweddol mae'n debyg y dylech ofyn am gyngor cyfrifydd lleol amdano. Mae'n werth nodi, serch hynny bod y dyn treth mewn gwirionedd yn gallu bod o help – mae'n awyddus ichi ddilyn y rheolau cywir ac ar y cyfan, mae'n hapus i'w hesbonio ichi. Mae'r system dreth yn y Deyrnas Unedig yn cael ei gweinyddu gan Gyllid a Thollau EM. Dyma'r dolenni'r i'r wefan:

www.gov.uk/business-tax/corporation-tax / www.gov.uk/set-up-sole-trader

TAW (treth ar werth)

Unwaith eto, mae rheolau TAW yn gymhleth ac yn benodol iawn i'r math o fusnes sydd gennych. Er enghraifft, roedd achos enwog yn 1991 a aeth yr holl ffordd i'r Uchel Lys ynglŷn ag a ddylid ystyried Jaffa Cakes yn fisgedi ynteu'n gacennau wrth godi TAW oherwydd bod y rheolau'n wahanol!

Yn gyffredinol, bydd busnesau'n talu TAW ar y pethau y byddan nhw'n eu prynu (TAW mewnbwn) ac yn codi TAW ar gwsmeriaid am y pethau y byddan nhw'n eu gwerthu (TAW allbwn), y ddwy ar gyfradd o 20%. Yna, byddan nhw'n talu'r gwahaniaeth rhwng y ddau swm TAW hyn i Gyllid a Thollau EM neu'n ei adhawlio. Yr unig effaith ar eich busnes fydd y swm net, h.y. y gwahaniaeth rhwng y mewnbynnau a'r allbynnau, ac felly ni fydd y swm yn enfawr. Hefyd, nes ichi werthu mwy na swm penodol, ni fydd angen ichi ychwanegu TAW at eich gwerthiannau. Ym mis Chwefror 2015, y trothwy hwn yw £81,000 y flwyddyn. (mae'r terfyn yn cynyddu bob blwyddyn ac mae i'w weld yn: www.gov.uk/vat-registration-thresholds)

Y peth mwyaf diogel i'w wneud felly yw cynnwys TAW yn eich costau, h.y. byddwch yn talu'r swm hwn, ond at ddiben eich rhagolwg, peidiwch â chynnwys TAW yn eich gwerthiannau. Bydd hyn yn rhoi golwg ddarbodus ichi ar eich tebygolrwydd o wneud elw.

Fel sy'n wir am drethiant, pan fydd eich busnes ar waith, dylech geisio cyngor gan gyfrifydd sy'n deall sut y bydd TAW yn berthnasol i'ch busnes penodol chi ac a fydd yn eich helpu i sefydlu proses gyfrifyddu ar ei chyfer.

Eich cyflog

Cofiwch os ydych yn gweithio amser llawn i sefydlu a chynnal eich busnes na fyddwch yn ennill cyflog. Unwaith eto, ar hyn o bryd, dylech anwybyddu eich cyflog a chanolbwyntio ar allu sylfaenol y busnes i wneud elw. Os yw'r busnes yn eiddo'n llwyr i chi, yna bydd unrhyw elw'n cynrychioli'r arian y byddwch yn ei wneud. Bydd angen ichi ystyried (i) a allwch oroesi'r cyfnod cynnar pan fydd y busnes naill ai'n gwneud colled neu'n gwneud elw mor fach fel na all fforddio talu cyflog ichi o gwbl a (ii) a fydd yr elw a wnaiff y busnes tua diwedd eich cyfnod yn ddigon ichi.

Yn olaf, mae'n werth gwneud y pwynt eto bod materion cyfreithiol a threthiannol cymhleth yn gysylltiedig â'r ffordd y byddwch yn talu ichi'ch hun ac fe ddylech gael cyngor gan gyfrifydd. Bydd cyfrifydd yn ystyried ai unig fasnachwr ynteu cwmni cyfyngedig ydych chi, faint o elw rydych yn ei wneud, a yw o fudd ichi dalu cyflog ichi'ch hun, difidendau ynteu gymysgedd o'r ddau.

Llog

Byddwn yn ystyried ariannu eich busnes yn fwy manwl yn yr ail fodiwl. Serch hynny, ar hyn o bryd, mae dal angen ichi ystyried unrhyw ddyledion ariannol sydd gennych i'r bobl sydd wedi ariannu'ch busnes. Er enghraifft, os ydych yn rhagweld y byddwch yn benthycu arian gan fanc, bydd angen ichi gynnwys y taliadau llog a hefyd ad-dalu'r cyfalaf yn eich rhagolwg. Yn yr un modd, os bydd ffrindiau neu'r teulu wedi cytuno i roi benthyg arian ichi am gyfnod, bydd angen ichi sicrhau eich bod yn cynnwys ad-dalu'r swm hwnnw yn eich costau.

Llif arian

Ffactor pwysig er mwyn deall cyfrifon busnes yw sylweddoli nad **yw elw o reidrwydd yn cyfateb i arian parod**. Mewn gwirionedd, bydd llawer o fusnesau proffidiol yn mynd yn fethdalwyr oherwydd bod eu llif arian yn sychu.

Rydym wedi sôn am enghraifft o hyn yn gynharach wrth gyfeirio at bopty'r pobydd cacennau – roedd yn rhaid iddo dalu amdano heddiw (mewn arian parod – a fydd yn ymddangos yn ei lif arian) ond yn ei gyfrif elw a cholled, taenwyd y gost dros ddwy flynedd oherwydd bod hynny'n ffordd deg o ddyrannu sut mae'r busnes yn 'defnyddio' yr ased. Yn yr un modd, os byddwch yn gwerthu rhywbeth i gwsmer, byddwch yn cofnodi'r gwerthiant hwnnw heddiw yn eich cyfrif elw a cholled. Serch hynny, efallai na fydd y cwsmer yn talu i chi am ychydig o fisoedd ac felly, na fydd yr arian parod yn ymddangos yn eich banc tan yn ddiweddarach. Yn y ddau achos felly, mae'r busnes yn edrych yn well o ran ei broffidioldeb nag o ran y llif arian.

Yn anffodus, a chithau'n fusnes newydd, dydych chi ddim mewn sefyllfa dda o ran arian parod:

- nid yw'n debygol y bydd gennych arian parod sylweddol wrth gefn;
- fel cwsmer newydd, heb hanes o fod yn ddibynadwy, bydd eich cyflenwyr yn meddwl bod risg yn perthyn ichi, a byddan nhw'n debygol o fynnu eich bod yn talu naill ai ymlaen llaw neu fyddan nhw ond yn cynnig cyfnod credyd byr ichi;
- fel cyflenwr newydd – prin fydd eich dylanwad ar eich cwsmeriaid ac felly efallai y bydd yn rhaid ichi gynnig cyfnodau hwy o gredyd. Os bydd y cwsmeriaid hynny'n talu'n hwyr, ychydig o bŵer bargeinio fydd gennych chi i'w hannog i dalu!;
- fel busnes sy'n tyfu, byddwch yn dal i amsugno arian parod. Mae hyn yn cael ei alw'n gylch cyfalaf gweithio. Gan ddefnyddio enghraifft syml: os byddwch yn cael archebion am fwy o'ch cynnyrch y mis hwn na'r mis diwethaf, bydd angen ichi dalu (mewn arian parod) am y deunyddiau crai ychwanegol i wneud y cynhyrchion ychwanegol hynny heddiw. Yna, bydd rhaid ichi wneud y cynnyrch a disgwyl i'r cwsmer dalu ichi. Bob tro y byddwch yn cynyddu'ch gwerthiannau, bydd angen ichi gael arian parod wrth gefn i ariannu'r cylch hwn.

Felly, mae'n hanfodol eich bod yn paratoi rhagolwg gofalus o'ch llif arian ac yn ystyried eich sefyllfa o ran arian parod mewn ffordd gymharol ddarvoudus.

Templed

Ar dempled y daenlen, mae'n bosibl cynnwys addasiadau elw/arian parod er mwyn cynhyrchu llif arian. Y prif bethau y bydd angen ichi eu cynnwys yw'r pethau hynny sy'n ymwneud â'ch gwerthiannau a'ch costau newidiol. Efallai ichi sylwi ar gelloedd pinc – mae'r rhain yn gadael ichi gynnwys cyfnod oedi mewn misoedd i'ch cwsmeriaid (h.y. ar y tab gwerthiannau os teipiwch chi "2", bydd y llif arian yn adnabod derbyniadau arian parod ddau fis ar ôl ichi werthu'r eitem). Os byddwch yn gadael hyn yn wag neu'n rhoi sero, byddwch yn derbyn yr arian ar yr un pryd (sylwch mai'r cyfnod oedi hwyaf ar y templed yw 6 mis ar gyfer gwerthiannau a chostau).

| Enw'r cwmni: Masnachu ABC | | | |
|---------------------------|--------|----------|------------|
| Gwerthiannau | | | |
| | Credyd | | Blwyddyn 1 |
| | Mis | | Mis 1 |
| Cynnyrch 1 | 2 | Foliwm | 12 |
| | | Pris | £45.00 |
| | | Cyfanswm | £540 |
| Cynnyrch 2 | 0 | Foliwm | 50 |
| | | Pris | £9.99 |
| | | Cyfanswm | £500 |

Mae'r tab **cost newidiol** hefyd yn dangos cell binc wrth ymyl costau pob cynnyrch sy'n golygu y gallwch roi cyfnod oedi ar gyfer talu i gyflenwyr. Sylwch mai cyfartaledd ar gyfer holl elfennau'r cerdyn costau yw hyn.

Eich rhagolwg wedi'i gwblhau

Erbyn hyn, dylech fod wedi cynnwys holl elfennau eich rhagolwg cyntaf. Os edrychwch chi ar y tab **Elw a Cholled** fe welwch chi grynodedb o'ch cyrif elw a cholled ar gyfer y tair blynedd a bydd y tab **Llif Arian** yn dangos eich llif arian wedi'i gwblhau. Sylwch mai'r arfer cyfrifyddu safonol yw dangos eitemau negatif, er enghraifft costau, mewn cromfachau, ac eitemau positif heb gromfachau.

Cyfrif elw a cholled

Bydd y datganiad hwn yn rhoi syniad da ichi a yw eich busnes yn hyfyw yn ei hanfod. Yn enwedig os edrychwch chi ar yr ail a'r drydedd flwyddyn, rydych mewn gwirionedd yn edrych ar berfformiad masnachu'r busnes ar ôl ei sefydlu.

| Enw'r cwmni: Masnachu ABC | | | | |
|---------------------------|------------|---------|---------|---------|
| Cyfrif elw a cholled | | | | |
| | Blwyddyn 1 | | | |
| Pob swm mewn £ | Mis 1 | Mis 2 | Mis 3 | Mis 4 |
| Gwerthiannau | 1,040 | 1,484 | 1,474 | 1,764 |
| Costau newidiol | (775) | (2,898) | (1,087) | (1,320) |
| Cyfraniad | 264 | (1,414) | 387 | 444 |
| Costau sefydlog | (176) | (176) | (176) | (176) |
| Elw masnachu | 88 | (1,590) | 211 | 267 |
| Costau cychwyn | (1,093) | (93) | (93) | (93) |
| Elw net | (1,004) | (1,682) | 119 | 175 |

Fe sylwch fod is-gyfanswm yn y cyfrif elw a cholled sy'n cael ei alw'n gyfraniad. Term cyfrifyddu yw hwn sy'n dangos y gwerthiannau llai'r costau newidiol, a bydd y swm hwn wedyn yn "cyfrannu" at y costau sefydlog. Os byddwch yn dyblu foliwm eich gwerthiannau, yna, os bydd popeth arall yn aros yr un fath, dylai'r cyfraniad ddyblu a dylai'r costau sefydlog aros yr un fath. Dylai edrych ar y llinell hon roi syniad da ichi am yr effaith a gaiff tyfu'ch busnes yn y dyfodol.

Mae yna dab arall, sef **Cynnyrch** sy'n dangos y cyfraniad wedi'i gyfrifyddu ar gyfer pob un o'ch cynhyrchion. Unwaith eto, mae hyn yn rhoi syniad da ichi am berfformiad masnachu pob un o linellau'ch cynhyrchion.

| Enw'r cwmni: Masnachu ABC | | | | |
|---------------------------|-----------------|------------|---------|-------|
| Cyfraniad fesul cynnyrch | | | | |
| | | Blwyddyn 1 | | |
| Pob swm mewn | | Mis 1 | Mis 2 | Mis 3 |
| Cynnyrch 1 | Gwerthiannau | 540 | 585 | 675 |
| | Costau Newidiol | (275) | (298) | (327) |
| | Cyfraniad | 265 | 287 | 348 |
| Cynnyrch 2 | Gwerthiannau | 500 | 599 | 799 |
| | Costau Newidiol | (500) | (600) | (760) |
| | Cyfraniad | (1) | (1) | 39 |
| Cynnyrch 3 | Gwerthiannau | | 300 | |
| | Costau Newidiol | | (2,000) | |
| | Cyfraniad | | (1,700) | |
| Cynnyrch 4 | Gwerthiannau | | | |
| | Costau Newidiol | | | |
| | Cyfraniad | | | |

Cofiwch nad ydych wedi cynnwys eich costau eich hun (eich cyflog) yn y rhagolwg hwn – os ydych yn bwriadu rhoi'ch holl amser i'r busnes hwn, bydd angen iddo wneud digon o arian ichi dynnu cyflog. Yn ogystal â hyn, wrth i'r busnes dyfu, bydd angen iddo ail-fuddsoddi ynddo'i hun – e.e. symud i adeilad mwy, prynu peiriannau newydd, costau hysbysebu wrth symud i farchnadoedd newydd, ac ati. Bydd angen i'ch busnes gynhyrchu digon o elw i wneud hyn.

Llif arian

Yn ystod y blynyddoedd cynnar hyn, efallai fod y **llif arian** yn fwy pwysig. Mae'r tab hwn yn codi'r holl arian a dderbynnir yn sgil gwerthiannau a thaliadau arian am eich costau ac yn eu cyfansymu ar gyfer pob mis. Mae'n addasu'r cyfnod credyd a roddir i gwsmeriaid a chan gyflenwyr ac amseru'r costau sefydlog a'r costau cychwyn.

| Enw'r cwmni: Masnachu ABC | | | | | |
|------------------------------------|------------|------------|-------|---------|-------|
| Llif arian | | | | | |
| | | Blwyddyn 1 | | | |
| Pob swm mewn £ | | Mis 1 | Mis 2 | Mis 3 | Mis 4 |
| Derbyniadau | Cynnyrch 1 | | | 540 | 585 |
| | Cynnyrch 2 | | | | 500 |
| | Cynnyrch 3 | | | | 300 |
| | Cynnyrch 4 | | | | |
| | Cynnyrch 5 | | | | |
| Taliadau | | | | | |
| Costau newidiol | Cynnyrch 1 | | (275) | (298) | (327) |
| | Cynnyrch 2 | | (500) | (600) | (760) |
| | Cynnyrch 3 | | | (2,000) | |
| | Cynnyrch 4 | | | | |
| | Cynnyrch 5 | | | | |
| Costau sefydlog | | (384) | (64) | (84) | (334) |
| Costau cychwyn | | (6,300) | | | |
| Cyfanswm llif arian I mewn (allan) | | (6,684) | (839) | (2,442) | (36) |

Fe welwch fod y llinellau olaf ar y daenlen hon yn dangos y sefyllfa arian parod gronnus. Bydd y rhan fwyaf o fusnesau newydd yn wynebu all-llif mawr o arian parod yn y misoedd cyntaf wrth iddyn nhw gael eu traed danynt, ac wedyn, cyn belled â bod y busnes yn masnachu'n dda, bydd yr arian yn dechrau dod i mewn.

Felly, dylech edrych am y misoedd lle mae'r sefyllfa arian parod ar ei waethaf – bydd angen ichi ariannu'r diffyg hwn rywsut. Yn y rhan fwyaf o fusnesau bach, mae'r arian hwn yn debygol o ddod o'ch cronfeydd chi'ch hun, h.y. cynilion, taliad diswyddo efallai neu symiau y gallwch eu benthyca. Fe sylwch mai sero yw'r sefyllfa arian parod ar y dechrau. Os gallwch fuddsoddi arian yn eich busnes, yna, gallwch roi'r swm hwn yng nghell D30 a bydd y daenlen yn ail-gyfrifo'r arian parod net.

| | Mis 1 | Mis 2 | Mis 3 | Mis 4 | Mis 5 |
|---------------------------------------|---------|---------|---------|-----------------------|----------|
| Arian a ddygwyd ymlaen | 0 | (6,684) | (7,523) | (9,966) | (10,002) |
| Ychwanegu'r llif arian ar gyfer y mis | (6,684) | (839) | (2,442) | (36) | 20 |
| Arian wrth gau | (6,684) | (7,523) | (9,966) | (10,002) | (9,982) |
| | | | | arian negyddol maxium | |

Ansicrwydd

Pwyll piau hi

Rydym wedi dweud eisoes ei bod yn anodd rhagweld y dyfodol. Does dim ots faint o waith ymchwil rydych wedi'i wneud, mae'n anochel y bydd eich gwerthiannau a'ch costau'n wahanol i'ch rhagolygon. Yn yr amgylchedd lle bydd eich busnes yn gweithio bydd cyfleoedd a bygythiadau'n codi yn sgil newidiadau – ffactorau gwleidyddol, economaidd, cymdeithasol, technolegol, ecolegol a chyfreithiol.

Bydd busnesau newydd yn dibynnu ar frwdfrydedd ac optimistiaeth ac wrth gwrs, fydddech chi ddim yn ystyried eich busnes pe na baech yn gobeithio llwyddo. Serch hynny, dylech ffrwyno'r brwdfrydedd hwn drwy fod yn bwylllog. Mae'n anochel y bydd rhai pethau'n mynd yn groes i'r hyn rydych yn ei ddisgwyl.

Senarios

Mae'n ddefnyddiol ystyried nifer o wahanol senarios, er enghraifft, os ydych wedi tybio bod foliwm eich gwerthiannau'n cynyddu dyweder 25% y flwyddyn, gallech lunio senario arall lle na fydd y twf ond yn 10% y flwyddyn, neu lle bydd y pris gwerthu'n is. Cofiwch addasu unrhyw gostau amrywiol y bydd hyn yn effeithio arnynt hefyd a chadwch eich taenlenni dan enwau gwahanol senarios.

Bydd y gwahanol senarios hyn yn help ichi weld pa ffactorau y mae'ch busnes fwyaf sensitif iddynt; dylech wedyn ymchwilio rhagor i'r eitemau hyn i ddilysu eich tybiaethau gwreiddiol.

Gallech lunio tri senario gwahanol ar sail set o dybiaethau sy'n dangos y darlun gorau/y darlun gwaethaf/y darlun mwyaf tebygol. Byddai'r rhain yn rhoi ystod o ganlyniadau ichi. Bydd y broses syml o ystyried y gwahanol senarios hyn yn help ichi feddwl beth y byddech yn ei wneud petai'r pethau hyn yn digwydd mewn gwirionedd.

Mantoli'r cyfrifon

Un senario terfynol y dylech ei ystyried yw dychwelyd at y cyfrifiadau elw a cholled ac edrych ar y llinell gyfraniad. Gallech gyfrifo faint yn is y gallai eich foliwm fod cyn y byddech yn gwneud dim elw, h.y. bod eich cyfraniad yn hafal i'r holl gostau sefydlog isod. Gelwir y foliwm ar y pwynt hwn yn fantoli'r cyfrifon, ac mae'n ddangosydd defnyddiol iawn – os na allwch werthu mwy na hyn – wnewch chi fyth elw.

Gofynion cyfreithiol a materion ymarferol

Wrth sefydlu busnes newydd, mae nifer o ofynion cyfreithiol a materion ymarferol y bydd angen ichi gydymffurfio â nhw. Fel y trafodwyd uchod, ni all y pecyn hwn drafod pob gofyniad manwl ar gyfer pob darpar fusnes; rhestr wirio gyffredinol sydd isod o'r materion y dylech eu hystyried.

Gydag unrhyw fenter fusnes, mae lluo o reolau a rheoliadau a allai eich baglu neu y gallech fanteisio arnynt. Os yw eich busnes ym maes paratoi bwyd neu'n cyflogi staff, bydd nifer y rheolau'n cynyddu'n sylweddol, felly mae'n werth cael cyngor proffesiynol ynglŷn â'ch amgylchiadau penodol.

Strwythur Cyfreithiol Eich Busnes

Mae'r modiwl cyflwyno hwn wedi tybio bod eich busnes wedi'i sefydlu ar batrwm "unig fasnachwr". Yn ei hanfod, mae hyn yn golygu ei fod yn gweithredu fel estyniad ohonoch chi'ch hun a bod elw a threth eich busnes yn cael eu trin fel eich incwm a'ch treth chi'ch hun. Serch hynny, fe allai eich busnes gael ei sefydlu fel Partneriaeth neu fel cwmni Atebolrwydd Cyfyngedig.

Byddwn yn ystyried manteision sefydlu'ch busnes fel Cwmni Cyfyngedig yn yr ail fodiwl. Ar hyn o bryd, byddwn yn tybio mai unig fasnachwr ydych chi. Nid oes gofyn cofrestru'n ffurfiol ar gyfer y strwythur hwn, ar wahân i roi gwybod i Gyllid a Thollau EM eich bod wedi dechrau masnachu. Dylech roi gwybod iddyn nhw am hyn cyn gynted ag y bo modd ond fan hwyraf erbyn y 5ed o Hydref yn ail flwyddyn dreth eich busnes. Os na wnewch chi hyn, fe allech gael eich cosbi.

Gallwch gofrestru yma www.gov.uk/set-up-sole-trader/overview

Gan fod y cwmni'n gweithredu fel estyniad i'ch gweithgareddau chi'ch hun, byddwch yn gyfrifol am lenwi ffurflen dreth, am dalu treth incwm a hefyd am gyfraniadau Yswiriant Gwladol. Drwy ddilyn y ddolen uchod, fe welwch wybodaeth fanwl am y prosesau a'r gofynion wrth sefydlu busnes unig fasnachwr, er enghraifft y rheolau am ba enw y cewch ei roi ar eich cwmni.

Meddalwedd cyfrifyddu a chadw cofnodion

Yn ei hanfod, dweud stori ar sail trafodion ariannol yw cyfrifyddu. Felly, mae'n hanfodol bwysig eich bod yn cadw cofnodion yn fanwl ofalus. O'r cychwyn un, paratowch ffeiliau (electronig a chopi caled) ar gyfer treuliau a gwerthiannau.

Hefyd, dylech ystyried buddsoddi mewn Meddalwedd Cyfrifyddu i'ch helpu i gofnodi pob trafodiad. Does dim rhaid i hyn fod yn ddud – a dweud y gwir, mae nifer o becynnau cyfrifon ar-lein ar gael am ddim.

Os byddwch yn defnyddio cyfrifydd i gael cyngor ac i'ch helpu i baratoi eich cyfrifon a'ch ffurflen dreth, byddan nhw'n gwybod am nifer o becynnau cyfrifyddu ac yn gallu'ch cyngori ar sail eu profiad.

Dod o hyd i gyfrifydd

Proses syml yw cyfrifyddu yn ei hanfod (wedi'r cyfan, fersiwn fymryn yn fwy cymhleth o'r hyn y byddwch yn ei wneud gyda'ch cyflogau a'ch treuliau chi'ch hun ydyw). Serch hynny, mae lluo o reolau a rheoliadau, yn enwedig yng nghyswllt trethiant, rhai a allai eich baglu a rhai y gallwch fanteisio arnynt. Felly, mae'n beth doeth dod o hyd i gyfrifydd sy'n gwybod am y diwydiant y bwriadwch fynd iddo yn eich ardal er mwyn iddo allu'ch helpu i fanteisio ar unrhyw fuddion a'ch rhwystro rhag disgyn i dwll treth neu gyfreithiol a fydd yn gostus ichi. Os na all cyfrifydd arbed mwy o arian ichi na chost ei gyflogi – gellid dadlau nad yw'n gwneud ei waith!

Yn ogystal â chynghori am dreth, dylai cyfrifydd da allu'ch cyngori am faterion ehangach, er enghraifft sefydlu'ch busnes, grantiau a dulliau eraill o ariannu'ch busnes, strwythurau eich busnes, dulliau o dalu ichi'ch hun, a materion ehangach ynghylch y busnes.

Os byddwch yn defnyddio'ch cyfrifydd i baratoi'ch cyfrifon blynyddol a'ch ffurflen dreth, bydd hyn yn gadael i chi fwrw ymlaen â rhedeg eich busnes, yn hytrach na phoeni am fanylion y pethau hyn.

Cyfrif banc

Mae'n bwysig eich bod yn sefydlu cyfrif banc ar wahân i'ch busnes cyn gynted ag y bo modd. Bydd hyn yn golygu y gallwch gadw'ch holl dreuliau a'ch refeniw ar wahân i'ch eitemau personol a fydd yn ei dro'n ei gwneud yn hawdd ichi fonitro cynnydd eich busnes a'i gymharu â'ch rhagolwg. Bydd hefyd yn ei gwneud yn haws ichi nodi a chyfiawnhau treuliau ar gyfer yr awdurdodau treth a sicrhau eich bod yn gosod yr eitemau hynny yn erbyn eich elw trethadwy.

Sylwch na fydd banciau'n gyffredinol yn cynnig bancio am ddim i fusnesau, dylech ddisgwyl iddyn nhw godi tâl bychan am bob trafodiad, megis pob siec y byddwch yn ei hysgrifennu.

Yswiriant

Dylech sicrhau bod gennych ddigon o yswiriant i'ch busnes megis yswiriant ar gyfer atebolrwydd cyhoeddus (rhag ofn i'ch busnes achosi niwed i aelod o'r cyhoedd), yswiriant atebolrwydd cyflogwr (ar gyfer eich gweithwyr) ac yswiriant ar gyfer asedau'ch busnes.

TAW

Soniwyd am TAW yn fras yn gynharach yn y rhan o'r modiwl hwn oedd yn trafod 'cyllid a'ch rhagolwg cyntaf'. Mae'n werth dweud eto, er hynny, os bydd gwerthiannau eich busnes y byddai gofyn talu TAW arnynt yn croesi trothwy penodol [£81,000 ar hyn o bryd ar gyfer blwyddyn dreth 2014-2015], ei bod yn rhaid ichi, yn ôl y gyfraith, gofrestru ar gyfer TAW, ychwanegu TAW at eich anfonebau gwerthu a thalu unrhyw TAW net i Gyllid a Thollau EM. Mae cosbau ariannol sylweddol am beidio â gwneud hyn.

Fel sy'n wir am lawer o ddeddfwriaeth dreth, mae'r rheolau manwl sy'n berthnasol i TAW yn gallu bod yn gymhleth. Ni chodir TAW o gwbl er enghraifft ar lawer o fwydydd. Mae'r cyfraddau wedi'u rhestru ar wefan TAW y llywodraeth: www.gov.uk/rates-of-vat-on-different-goods-and-services.

Felly, dylech edrych yn ofalus ar ddeddfwriaeth TAW a gofyn am gyngor proffesiynol lle bydd hynny'n briodol. Er enghraifft, efallai y bydd cyfrifydd yn eich cynghori i gofrestru ar gyfer TAW hyd yn oed os nad yw eich gwerthiannau wedi cyrraedd y trothwy. Mae hyn yn aml yn wir yn y diwydiant bwyd oherwydd bod cofrestru'n eich galluogi i adhawlio'r TAW rydych wedi'i thalu ar eich mewnbynnau (cyflenwadau). Fe allai hyn ostwng rhai o gostau'ch busnes.

Trwyddedau

Rhaid trwyddedu rhai gweithgareddau busnes er mwyn masnachu. Mae hyn yn berthnasol i ddiwydiannau megis gweithgynhyrchu bwyd, tai tafarn a lletygarwch. Wrth sefydlu busnes bwyd yng Nghymru, rhaid ichi gysylltu â'r cyngor lleol i'w gofrestru – mae gweithgareddau bwyd yn cynnwys:

- gwerthu bwyd;
- coginio bwyd;
- storio neu drin bwyd;
- paratoi bwyd;
- dosbarthu bwyd.

Rhaid ichi gofrestru pob eiddo lle byddwch yn cyflawni gweithgareddau bwyd, gan gynnwys eich cartref, ac eiddo symudol neu dros dro megis stondinau a faniau.

Os byddwch yn gwneud, yn paratoi, neu'n trin bwyd sy'n dod o anifeiliaid, er enghraifft cynhyrchion cig neu laeth, efallai y bydd angen ichi gael cymeradwyo'r eiddo gan y cyngor cyn ichi allu ymgymryd â'r gweithgarwch. Mewn ambell achos, nid oes yn rhaid ichi gael eich archwilio neu'ch cymeradwyo, er enghraifft os byddwch yn gwerthu'n uniongyrchol i'r cyhoedd neu i fanwerthwyr er enghraifft arlwywyr, tafarndai a bwytai, os:

- yw bwyd yn llai na 25% o'ch masnach;
- nad yw'r cynhyrchion y byddwch yn eu trin yn cynnwys helgig;
- na fyddwch yn gwerthu bwyd y tu allan i'r wlad lle mae'ch busnes wedi'i gofrestru.

Rhaid ichi ddal i ddilyn y rheolau ar gyfer rheoli tymheredd a storio unrhyw fwyd y byddwch yn ei gludo. Os na fyddwch yn cofrestru ac yn sicrhau statws cymeradwy, mae'n bosibl y byddwch yn cyflawni trosedd sy'n arwain at gosb.

Dylech gysylltu â'ch cyngor lleol, neu edrych ar ei wefan, i weld sut mae gwneud cais am drwydded a sut ac ymhle y bydd angen ichi arddangos eich statws cymeradwy.

Systemau rheoli diogelwch bwyd a HACCP

O dan gyfraith y Deyrnas Unedig, rhaid i bob busnes Bwyd a Diod yn y Deyrnas Unedig roi system rheoli diogelwch bwyd ar waith ar sail egwyddorion HACCP.

System yw HACCP (Dadansoddi Peryglon a Phwynt Rheoli Critigol) sy'n helpu gweithredwyr busnesau bwyd i edrych ar sut y maen nhw'n trin bwyd ac mae'n cyflwyno gweithdrefnau i sicrhau bod y bwyd sy'n cael ei gynhyrchu'n ddiogel i'w fwyta. Mae HACCP wedi'i seilio ar egwyddorion a sefydlwyd gan NASA wrth baratoi bwyd i astronôts!

Mae yna becyn ar lein wedi'i seilio ar egwyddorion HACCP y mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd wedi'i sefydlu'n arbennig ar gyfer busnesau bwyd bach. Mae hwn i'w weld yma: www.food.gov.uk/business-industry/manufacturers/myhaccp

Mae gweithgynhyrchwyr llai ym maes bwyd a diod yn fwyfwy awyddus i sicrhau achrediad cydnabyddedig yn y diwydiant, er enghraifft SALSA – Cymeradwyaeth i Gyflenwyr Diogel a Lleol. Bydd ennill achrediad yn dangos i gwsmeriaid yn y diwydiant eich bod yn gymwys ac yn rhoi'r sicrwydd i chi eich bod yn cynnal eich busnes mewn ffordd broffesiynol. Mae rhagor o wybodaeth am SALSA i'w gweld yma: www.salsafood.co.uk/

Bydd angen i gynhyrchwyr neu gwmnïau mwy ym maes bwyd a diod sy'n dymuno cyflenwi eu cynhyrchion â'u labelu eu hunain/brand manwerthwr arnynt sicrhau achrediad mwy llym sef y BRC – Consortiwm Manwerthu Prydain www.brcglobalstandards.com/

Yng Nghymru, mae cymorth ar gael i gwmnïau bwyd a diod drwy'r Canolfannau Arloesi Bwyd megis Coleg Menai, Horeb a Phrifysgol Fetropolitan Caerdydd.

Y Safon Bwyd – Hierarchaeth Dechnegol

Lle da i ddechrau fyddai deall y Safon Diogelwch Bwyd yn y Deyrnas Unedig.

Gall unrhyw gwmni prosesu bwyd ddefnyddio Safon Diogelwch Bwyd y BRC lle bydd bwyd agored yn cael ei drin, ei brosesu neu ei bacio. Gallai hyn fod yn gynhyrchion cynradd megis tai pacio cynnyrch ffres a lladd-dai i fwydydd wedi'u prosesu, ffatrioedd canio a chynhyrchion parod i'w bwyta. Mae Safon Diogelwch Bwyd y BRC yn helpu i sefydlu arferion gweithgynhyrchu da er mwyn ichi gynhyrchu cynhyrchion diogel, cyfreithiol sy'n cyrraedd y lefelau ansawdd y bydd eich cwsmeriaid yn eu disgwyl.

Rhennir y Safon yn bedair adran:

1. Ymrwymiad Uwch Reolwyr a Gwella Parhaus

Er mwyn i unrhyw system diogelwch bwyd fod yn effeithiol, mae'n hanfodol bod y tîm uwch reoli wedi ymrwymo'n llwyr i'w rhoi ar waith a'i datblygu'n barhaus. Rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod yr ymrwymiad hwn yn "fyw".

2. Y Cynllun Diogelwch Bwyd (HACCP)

Y sail ar gyfer y System Diogelwch Bwyd yw rhaglen HACCP (Dadansoddi Peryglon a Phwynt Rheoli Critigol) sydd wedi'i seilio ar ofynion system Codex Alimentarius a gydnabyddir yn rhyngwladol. (Casgliad o safonau, codau ymarfer, canllawiau ac argymhellion eraill ynghylch bwyd, cynhyrchu bwyd a diogelwch bwyd sy'n cael eu cydnabod yn rhyngwladol yw'r Codex Alimentarius.)

3. System Rheoli Diogelwch ac Ansawdd Bwyd

Mae'n rhestru'r gofynion ar gyfer rheoli diogelwch ac ansawdd bwyd, gan adeiladu ar egwyddorion ISO 9,000. Mae hyn yn cynnwys gofynion ar gyfer manylebau cynhyrchion, cymeradwyo cyflenwyr, y gallu i olrhain, a rheoli digwyddiadau a galw cynhyrchion yn ôl.

4. Safonau ar gyfer Safleoedd

Mae'n rhestru'r disgwyliadau ar gyfer yr amgylchedd cynhyrchu gan gynnwys patrwm yr adeiladau a'r offer a sut i'w cynnal a'u cadw, glanhau, rheoli plâu, rheoli gwastraff a rheoli corffynnau estron.

5. Rheoli Cynnyrch

Mae'n cynnwys y gofynion ar gyfer cam dylunio a datblygu'r cynnyrch, gan gynnwys rheoli alergenau, tarddiad cynhyrchion a chynhwysion, archwilio cynhyrchion a'u profi yn ogystal â chydymffurfio o ran pecynnu (codau dyddiad, disgrifiadau a rhybuddion).

6. Rheoli Prosesau

Mae'n cynnwys sefydlu a chynnal dulliau diogel i reoli prosesau, rheoli pwysau/foliwm a graddnodi offer, ac mae'n sicrhau bod y cynllun HACCP sydd wedi'i ddogfennu'n cael ei roi ar waith.

7. Personél

Mae'n rhestru'r safonau sydd eu hangen ar gyfer hyfforddi staff, dillad gwarchod a hylendid personol.

Argymhellir y camau a ganlyn wrth feddwl am eich safonau bwyd:

- Ymchwilio i benderfynu pa lefel a pha fath o dystysgrif a chydymffurfiaeth sydd ei hangen ar eich busnes er mwyn cynhyrchu bwyd yn ddiogel i'ch cwsmeriaid.
- Mynd at y corff perthnasol yn y diwydiant a chofrestru'ch busnes.
- Ystyried pa adnoddau technegol allanol a mewnol y bydd eu hangen arnoch i gynllunio'ch systemau ansawdd a'ch systemau rheoli eraill a'u rhoi ar waith.
- Cynllunio polisi busnes cyffredinol a'i gyhoeddi'n fewnol a'i chyfleu i'ch cwsmeriaid.
- Creu prosiect/rhaglen ar gyfer ei sefydlu a'i roi ar waith.
- Cofio cynnwys rheoli technegol, archwiliadau a chymau cydymffurfio parhaus yng nghyllideb eich busnes.

Iechyd a Diogelwch

Os byddwch yn cyflogi rhywun, bydd gennych ddyletswydd gyfreithiol i warchod iechyd a diogelwch eich gweithwyr a phobl eraill y mae'ch gwaith yn gallu effeithio arnyn nhw. Hyd yn oed os ydych yn hunangyflogedig, bydd angen ichi ofalu am eich iechyd a'ch diogelwch chi'ch hun a phobl y mae'ch gwaith yn effeithio arnyn nhw. Felly, mae'n ofyniad cyfreithiol bod pob cyflogwr a phawb sy'n hunangyflogedig yn asesu'r risgiau iechyd a diogelwch sy'n codi yn sgil eu gwaith.

Serch hynny, dim ond busnesau sydd â phum gweithiwr neu ragor fydd yn gorfod cael polisi iechyd a diogelwch ysgrifenedig ar ôl iddyn nhw nodi'r risgiau. Bydd polisi iechyd a diogelwch ysgrifenedig yn disgrifio sut y byddwch yn rheoli ac yn atal risgiau, gan ddangos i'ch staff a'r byd ehangach sut y byddwch yn ymrwymo i gadw'r gyfraith iechyd a diogelwch.

Er bod hyn yn ymddangos yn dipyn o dasg, mater o synnwyr cyffredin ydyw a dweud y gwir a byddai'n golygu cymryd camau megis cael mecanweithiau cloi ar beiriannau peryglus neu arwyddion "gofal – POETH" ar boptai.

Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch sy'n gweinyddu ac yn gorfodi iechyd a Diogelwch yn y Deyrnas Unedig. Maen nhw'n cyhoeddi canllawiau defnyddiol gan gynnwys pecyn a thempledi i fusnesau bach yma: www.hse.gov.uk/leadership/smallbusinesses.htm

Nodau masnach, pecynnu a chodau bar

Byddwn yn ystyried ffactorau megis brandio a phecynnu'n fanylach o lawer yn yr adran marchnata yn y 3ydd modiwl. Hyd yn oed yn ystod camau cynnar eich busnes, dylech ystyried enw eich cynnyrch a sut mae'n cael ei becynnu.

Nodau masnach a phecynnu

Os ydych yn bwriadu brandio'ch cynhyrchion eich hun yn hytrach na'u cynhyrchu i rywun arall eu brandio fel rhan o'u cynnyrch hwythau, bydd yn rhaid ichi sicrhau bod enw, pecynnu a nodweddion eich cynnyrch yn unigryw ac nad ydynt yn tarfu ar unrhyw nodau masnach sydd wedi'u cofrestru eisoes. Dros y blynyddoedd, mae Apple Computer wedi talu dros \$50m i Apple Corps (perchnogion recordiau'r Beatles) i ddatrys anghydfodau cyfreithiol am darfu ar eu henw!

Mae defnyddio chwilotwr fel google i chwilio am enw yn ffordd dda i ddechrau gweld a oes rhywun arall yn defnyddio'r enw hwnnw. Rydym wedi crybwyll eisoes y bydd gan Dŷ'r Cwmnïau gofnod o bob cwmni cyfyngedig sydd ag enw penodol, felly dyma le da arall i ddechrau. Mae'n werth defnyddio cynghorwyr arbenigol cyn buddsoddi symiau sylweddol ar farchnata neu becynnu.

Codau bar

Bydd angen i unrhyw gynnyrch a werthir drwy fanwerthwr gael cod bar er mwyn gallu ei sganio yn y man gwerthu. Yn y Deyrnas Unedig, mae'r rhain yn cael eu cyhoeddi a'u gweinyddu gan www.gs1uk.org. Bydd GS1uk hefyd yn ymdrin â'r codai QR mwy modern ac maen nhw hefyd yn rhan o'r consortiwm byd-eang sy'n delio â thagio RFID.